

Commission Cyfle Cyfartal

Equal Opportunities Commission

Cam-drin Domestig

Y FFEITHIAU

Adroddiad Ymchwil Eilaidd

Tracey Jenkins a Jennifer Dunne
Comisiwn Cyfle Cyfartal
Awst 2007



Cynnwys

1. Cyflwyniad	Tudalen 3
2. Ystadegau cam-drin domestig	Tudalen 4-6
3. Cost cam-drin domestig	Tudalen 7-9
4. Cam-drin domestig a'i effaith ar blant a phobl ifanc	Tudalen 10-12
5. Cam-drin domestig, anabledd, hil, crefydd oedran a chyfeiriadedd rhywiol	Tudalen 13-16
6. Cam-drin domestig a'r gyfraith	Tudalen 17-19
7. Polisi Llywodraeth San Steffan	Tudalen 20-23
8. Polisi Llywodraeth y Cynulliad	Tudalen 24-27
9. Argymhellion	Tudalen 28-30
10. Cyfeiriadau	Tudalen 31-33
11. Rhifau Ffôn Llinellau Cymorth	Tudalen 34-35

Cyflwyniad

Mae Cam-drin Domestig yn digwydd ledled y byd, ac mae'n croesi ffiniau dosbarth, hil, crefydd, anabledd, oed a rhywioldeb.

Er hynny, mae gwaith ymchwil yn dangos mai menywod sy'n cael eu heffeithio'n bennaf gan Gam-drin Domestig, ac mai dynion sydd fwyaf tebygol o gyflawni'r drosedd. Felly, mae'r Comisiwn Cyfle Cyfartal yn gofyn 'Sut mae modd sicrhau cydraddoldeb rhwng y rhywiau pan fo Cam-drin Domestig mor gyffredin?'

Mae'r adroddiad hwn yn trin a thrafod effeithiau cam-drin domestig, ei effeithiau ar fenywod a'u plant, a'r gost i'r economi a'r drefn gyfreithiol.

Mae'r adroddiad hefyd yn bwrw golwg ar gynlluniau llywodraeth San Steffan a'r Cynulliad Cenedlaethol i fynd i'r afael â'r mater hwn. Mae'r adroddiad yn nodi bod cam-drin domestig yn fater pwysig dros ben, gyda 25% o fenywod yn dioddef hynny rywbryd yn eu bywydau ⁽¹⁾. Mae adran argymhellion yr adroddiad yn dangos nad yw sefydliadau'r llywodraeth a sefydliadau gwirfoddol yn gallu mynd i'r afael â'r broblem hon ar eu pen eu hunain, a bod gan bawb gyfrifoldeb – yn enwedig cyflogwyr sy'n cyflogi cyfran uchel o fenywod. Felly, rydyn ni'n argymhell sefydliadau:

- ❑ **Rhoi diwedd ar y tawelwch**
- ❑ **Codi ymwybyddiaeth**
- ❑ **Darparu hyfforddiant ar gam-drin domestig**
- ❑ **Cael polisi ar gam-drin domestig**
- ❑ **Cynnig cymorth**

Nodyn: Mae'r argymhellion yn cael ei egluro'n llwyr are tudalennau 29

Cam-drin Domestig

Dyma ddiffiniad y Swyddfa Gartref o gam-drin domestig:

"Unrhyw achos o drais rhwngartneriaid cyfredol a chyn-bartneriaid sydd mewn perthynas agos, ble bynnag mae hynny'n digwydd. Gall fod yn drais corfforol, rhywiol, emosiynol ac ariannol."

Y Swyddfa Gartref, 2002

Ystadegau cam-drin domestig

Er nad yw achosion o drais yn erbyn menywod yn cael eu hadrodd hanner digon aml, mae gwaith ymchwil yn dangos y canlynol:

Y DU

Mae 25% o fenywod yn profi trais domestig yn eu bywydau, a rhwng 16% a 10% yn dioddef trais domestig bob blwyddyn. ⁽¹⁾

Mae dwy fenyw yn cael eu lladd bob wythnos yn y DU gan bartneriaid neu gyn-bartneriaid. ⁽³⁾

Mae Arolwg Troseddau Prydain yn dangos bod 45% o fenywod y DU wedi profi rhyw fath o drais domestig, ymosodiad rhywiol neu stelcio. ⁽²⁷⁾

Mae achosion o gam-drin domestig yn ailddigwydd fwy nag unrhyw drosedd arall. Ar gyfartaledd, bydd menyw'n dioddef 35 o ymosodiadau cyn dweud wrth yr heddlu. ⁽³⁾

Mae menywod mewn perygl mwyaf o gael eu llofruddio pan fyddant yn gwahanu neu'n gadael partner treisgar. ⁽³⁾

Cymru

Yn 2003, roedd dros hanner o lofruddiaethau yn y De yn gysylltiedig â thrais domestig

Mae 50 o fenywod yn cael eu hatgyfeirio i Uned Diogelwch i Fenywod Caerdydd bob wythnos. ⁽²²⁾

Yn ôl yr Uned hon, bydd un cleient ar gyfartaledd wedi dioddef bron i 7 mlynedd o gam-drin corfforol, a thraean wedi cael eu cam-drin yn rhywiol. ⁽³⁾

Yn ystod diwrnod cyfrif yn y flwyddyn 2000, fe welodd y sefydliad Cymorth i Fenywod bod 173 o fenywod a 240 o blant/pobl ifanc yn byw mewn llochesi ledled Cymru ar y diwrnod hwnnw. ⁽²²⁾

Ar gyfartaledd, mae 49 o fenywod yn cysylltu â'r sefydliad Cymorth i Fenywod bob dydd am eu bod yn dioddef cam-drin domestig. ⁽²²⁾

Agweddau

Mae 20% o ddynion ifanc a 10% o fenywod ifanc yn credu bod cam-drin neu drais yn erbyn menywod yn dderbyniol. ⁽⁵⁾

Mae bron i draean o bobl o'r farn bod menyw'n rhannol neu'n gwbl gyfrifol am gael ei threisio os oedd hi'n feddw. ⁽³⁶⁾

lechyd

Trais domestig sy'n bennaf gyfrifol am farwolaethau ymysg menywod rhwng 19 a 44 oed ledled y byd – yn fwy na rhyfel, canser neu ddamweiniau ffyrdd. (4)

Mae trais domestig yn cael yr un effaith seicolegol ag effeithiau arteithio a charcharu gwystlon. (7)

Mae'r effeithiau seicolegol ar ddiodefwyr trais domestig yn cynnwys poen meddwl, problemau cysgu, diffyg hunan-barch, teimlad o anobaith, iselder a diffyg hyder. Gall yr effeithiau hyn arwain at hunan-niweidio, hunanladdiad gwirioneddol neu ymgais i wneud hynny. (3)

Trais domestig sy'n bennaf gyfrifol am achosion o golli babanod neu farw-enedigaethau. (27)

Yn ôl astudiaeth gan Shelter, dywedodd 40% o fenywod digartref mai trais domestig oedd yn gyfrifol am eu sefyllfa. (37)

Nid yw 10% o blant sy'n byw mewn lloches wedi cofrestru â gwasanaethau'r GIG, fel meddyg neu'r deintydd. (38)

Mae dros 50% o fenywod mewn carchardai wedi dioddef trais domestig, a thraean ohonynt wedi cael eu cam-drin yn rhywiol. (36)

Erlyn

Mae heddlu'r DU yn cael eu galw i ymdrin ag achos domestig bob munud, er mai dim ond 35% o achosion o drais domestig sy'n cael eu hadrodd wrth yr heddlu. (38)

Mae tua 600,000 o achosion o drais domestig ledled gwledydd Prydain bob blwyddyn. Er hynny, dim ond rhyw 7,000 sy'n cael eu herlyn. (6)

Rhwng mis Ebrill 2004 a mis Mawrth 2005, roedd 45% o achosion o drais domestig yn aflwyddiannus o gymharu â 20% ar gyfer troseddau eraill. (42)

Mae gwaith ymchwil yn awgrymu nad yw 75-95% o achosion o drais rhywiol byth yn cael eu hadrodd i'r heddlu (36)

Yn 2004, dim ond 5.3% o bobl a ddyfarnwyd yn euog o dreisio – sef y ffigur isaf erioed. (36)

Cost cam-drin domestig

Amcangyfrifir bod pob achos o ddynladdiad yn sgil trais domestig yn werth tua £1.1m

Y Swyddfa Gartref, 2000

Y costau

Amcangyfrifir bod cam-drin domestig yn costio £23 biliwn y flwyddyn yng Nghymru a Lloegr. ⁽¹⁰⁾

Dyma ddadansoddiad Sylvia Walby (2004) o gostau trais domestig:

Math o gost	Amgyfrif £biliwn
System Cyfiawnder Troseddol	1.017
costau heddlu	(.49)
Gofal iechyd	1.396
costau iechyd corfforol	(1.22)
costau iechyd meddwl	(.176)
Gwasanaethau cymdeithasol	.228
Tai argyfwng	.158
Cyfraith sifil	.312
Pob gwasanaeth	3.111
Cynnyrch economaidd	2.672
Isgyfanswm	5,783
Dynol ac emosiynol	17.086
Cyfanswm	22.869

Costau amcangyfrifedig ar gyfer Cymru a Lloegr yn 2001 yw'r rhain. ⁽¹⁰⁾

- ❑ **Y System Cyfiawnder Troseddol (CJS):** Mae hyn yn werth £1 biliwn y flwyddyn, sef bron chwarter cyllideb y System Cyfiawnder Troseddol. Mae elfennau'r CJS yn cynnwys: costau erlyniadau, llysoedd, carchardai, y gwasanaeth prawf a chymorth cyfreithiol. Costau'r heddlu yw'r elfen fwyaf.
- ❑ **Gofal iechyd:** Daw'r rhan fwyaf o gostau'r GIG yn sgil anafiadau corfforol (£1.2 biliwn y flwyddyn). Mae cam-drin domestig hefyd yn cael effaith ar iechyd meddwl, sy'n golygu £176 miliwn o gostau ychwanegol i'r GIG.
- ❑ **Gwasanaethau cymdeithasol:** Mae ymchwil yn dangos bod plentyn 15 gwaith yn fwy tebygol o gael ei gam-drin gan ei dad mewn cartref lle mae achos o gam-drin domestig. ⁽¹⁴⁾ Mae'n golygu bron i chwarter biliwn o gostau ychwanegol i'r Gwasanaethau Cymdeithasol bob blwyddyn, a hynny ar gyfer plant yn bennaf.
- ❑ **Tai:** Amcangyfrifir mai £160 miliwn y flwyddyn yw'r gost. Mae gwariant ar dai argyfwng yn cynnwys costau i awdurdodau tai lleol a chymdeithasau

tai er mwyn cartrefu'r rhai sy'n ddigartref oherwydd trais domestig; budd-dal tai ar gyfer tai argyfwng; ac yn bwysicach fyth, llochesi. ⁽¹²⁾

Yn 2002, cynorthwyodd Shelter 3,193 o fenywod â phroblemau tai oherwydd trais domestig. Mae ystadegau llywodraeth San Steffan yn nodi'r canlynol dros gyfnod o dri mis – o blith 33,640 o deuluoedd digartref yn ôl yr awdurodau lleol, roedd 23% yn y sefyllfa honno oherwydd tor-perthynas - 70% o'r rhain yn sgil cam-drin domestig. ⁽³⁾

- **Cyfraith sifil:** gwaharddebau, ysgariad a chystodaeth plant yw rhai o'r gwasanaethau Cyfraith Sifil sy'n costio dros £300 miliwn y flwyddyn, gyda rhyw hanner ohonynt yn cael eu talu drwy gymorth cyfreithiol a'r hanner arall o bocedi'r unigolyn.
- **Cynnyrch economaidd:** Mae hyn yn golygu rhyw £2.7 biliwn o golledion i'r economi bob blwyddyn. Dyma gostau absenoldebau o'r gwaith oherwydd anafiadau. Amcangyfrifir mai'r cyflogwr sy'n ysgwyddo'r baich am hanner y costau am absenoldeb salwch. Y cyflog a gollir gan unigolyn yw'r hanner arall. ⁽¹²⁾

Cam-drin domestig yn y gweithle

- Mae 56% o fenywod sydd wedi'u cam-drin yn cyrraedd yn hwyr i'r gwaith o leiaf bum gwaith y mis.
- Mae 28% yn gadael gwaith yn gynnar o leiaf bum diwrnod y mis.
- Mae 53% yn colli o leiaf dri diwrnod o waith y mis.
- Mae lefelau cynhyrchaint a chanolbwyntio yn gostwng yn sylweddol.
- Unwaith mae rhywun yn gadael partner treisgar, maen nhw'n agored i niwed yn y gweithle'n arbennig gan mai dyma'r unig le y gallant gael eu canfod neu eu niweidio.
- Mae 75% o'r rhai sy'n dioddef trais domestig yn cael eu targedu yn y gwaith – o alwadau ffôn maleisus, ymweliadau dirybudd gan bartneriaid treisgar, i ymosodiadau corfforol. ⁽¹¹⁾

Costau dynol ac emosiynol: Amcangyfrifir mai tua £17 biliwn y flwyddyn yw costau dynol ac emosiynol yn sgil cam-drin domestig. ⁽¹⁰⁾ Mae Sylvia Walby (2004) yn cynnwys costau dynol ac emosiynol fel rhan o'i chyfanswm gwasanaethau, ond nid yw'n cynnwys y boen a'r dioddefaint a achosir gan gam-drin domestig. Mae'n ddefnyddiol cynnwys amcangyfrif o'r costau dynol ac emosiynol fel nad yw effeithiau hyn yn cael eu hanwybyddu wrth bennu polisi cyhoeddus.

Mae llawer iawn o arian cyhoeddus yn cael ei wario ar wasanaethau sy'n ymdrin â sgil-ffeithiau cam-drin domestig, yn enwedig erlyn y troseddwr. Mae'n ymddangos bod prinder gwybodaeth ynglŷn â faint o arian sy'n cael ei wario ar atal cam-drin domestig yn y lle cyntaf.

Cam-drin domestig a'i effaith ar blant a phobl ifanc

Amcangyfrifir bod cam-drin domestig yn effeithio ar 150,000 o blant a phobl ifanc Cymru ar unrhyw bryd.

Cymorth i Fenywod (2004)

Cam-drin domestig a'i effaith ar blant a phobl ifanc

Profiad plant o gam-drin domestig

Mae plant naill ai yn yr un ystafell, neu'r ystafell drws nesaf, mewn 90% o achosion lle'r oedd menywod yn dioddef ymosodiad domestig. ⁽¹³⁾ Mae o leiaf 750,000 o blant yn gweld trais domestig yn y DU bob blwyddyn, ac mae bron i dri chwarter y plant sydd ar y rhestr amddiffyn plant yn byw mewn cartrefi lle mae trais domestig yn digwydd. ⁽¹⁵⁾

Efallai bod plant yn gysylltiedig â'r achosion hyn mewn sawl modd. Mae 33% o blant yn ceisio ymyrryd pan fo rhywun yn ymosod ar eu mamau ⁽⁹⁾. Efallai eu bod nhw'n cael eu gorfodi i wyllo'u mamau'n cael eu cam-drin, gyda 10% o famau'n cael eu cam-drin yn rhywiol o flaen eu plant, ⁽⁹⁾ neu'r plant yn cael eu hannog i fod yn gas i'w mamau. Efallai bod troseddwyd yn bygwth neu'n cosbi'r plant yn amhriodol er mwyn codi braw ar eu mamau.

Mae plentyn 15 gwaith fwy tebygol o gael ei gam-drin gan ei dad os oes achos o gam-drin domestig yn y cartref hefyd. ⁽¹⁴⁾ Wrth ddadansoddi adolygiadau o achosion difrifol o farwolaethau plant, gwelwyd mai cam-drin domestig oedd un o'r nodweddion mwyaf cyffredin. ⁽²⁹⁾

Hyd yn oed ar ôl i'r fenyw adael ei phartner treisgar, mae perygl y gallai'r partner fanteisio ar drefniadau cyswllt â'u plentyn er mwyn parhau i gam-drin. Wrth adolygu achosion o ddynladdiad, gwelwyd bod cryn berygl o hyd wrth i'r rhiant treisgar gadw cysylltiad â'i blentyn ar ôl i'r rhieni wahanu. Er bod trais domestig yn gysylltiedig ag 16,000 o achosion y flwyddyn lle gorchmynnwyd adroddiadau lles gan y llysoedd, dim ond mewn 601 o achosion y gwrthodwyd hawl i'r rhiant weld y plentyn. ⁽²⁹⁾

Mae'r sefydliad Cymorth i Fenywod wedi llunio rhestr o 29 o blant mewn 13 o deuluoedd a laddwyd yn sgil trefniadau cyswllt (neu drefniant preswyl mewn un achos) yng Nghymru a Lloegr rhwng 1994 a 2004. Ond fe allai'r niferoedd fod yn uwch, gan nad yw'r llywodraeth wedi casglu ystadegau am achosion o ddynladdiad trwy gyswllt plant. Yn achos pump o'r marwolaethau hyn, gorchmynnodd y llys i'r tad gael cyswllt â'i blant. ⁽²⁹⁾ Mae'n amlwg fod y tad wedi lladd ei blant i ddial ar ei gynbartner am ei adael. ⁽²⁹⁾

Yr effaith ar blant

Mae plant sy'n byw dan gysgod trais yn cael eu heffeithio mewn sawl modd. Efallai eu bod yn cael eu heffeithio gan ofn, y rhwyg a'r trallod yn eu bywydau. Efallai bod ganddynt broblemau corfforol, emosiynol, dysgu, ymddygiad neu ddatblygu, a bod hynny'n effeithio ar eu cyflawniad a'u cyrhaeddiad addysgol hefyd. Credir bod plant cyn-ysgol sy'n byw ar aelwyd dreisgar yn gweld mwy o achosion o drais, a'u bod dan fwy o berygl o gael anawsterau emosiynol ac ymddygiad na phlant hŷn. ⁽¹⁸⁾

Y ffordd fwyaf effeithiol o ddiogelu plant yw sicrhau diogelwch y mamau. ⁽³⁾

Ar Ddiwrnod Cyfrifiad Cymorth i Fenywod Lloegr (2 Tachwedd 2004) roedd tua 45% o'r plant oedd yn aros mewn llochesi o dan 5 oed, 39% rhwng 5 a 10 oed ac 16% rhwng 11 ac 16 oed. ⁽¹⁷⁾

Yn ôl Cymorth i Fenywod, plant yw hanner preswylwyr llochesi yng Nghymru.

Yn ystod 2003/04, arhosodd bron i 18,569 o fenywod a 23,084 o blant yn llochesi Lloegr. ⁽¹⁷⁾

Yn 2003/04, cafodd 142,526 o fenywod a 106,118 o blant gymorth ar gyfer trais domestig yn Lloegr. ⁽¹⁷⁾

Cam-drin domestig, anabledd, hil, crefydd, oedran a chyfeiriadedd rhywiol

Mae trais domestig yn effeithio ar bob rhan o'r gymdeithas, waeth beth fo'u hoedran, rhyw, sefyllfa ariannol, rhywioldeb a lleoliad.

(Tackling Domestic Violence: providing advocacy, support to survivors of domestic violence.)

Cam-drin domestig, anabledd, hil, crefydd, oedran a chyfeiriadedd rhywiol

Menywod o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig

Mae trais domestig yn effeithio ar fenywod o bob grŵp ethnig, ond mewn rhai cymunedau, gall teuluoedd estynedig waethygu'r sefyllfa - gan gynnwys priodi dan orfod neu anffurfio genitalia.

Mae Cymorth i Fenywod yn credu y gallai fod yn anoddach i fenyw ddeall pa gymorth sydd ar gael os nad yw hi'n siarad Saesneg fel iaith gyntaf. Mae dynion yn fwy tebygol o siarad Saesneg a defnyddio hyn i ddangos eu grym. Hefyd, mae menywod o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn llai tebygol o fod â pherthnasau neu ffrindiau i'w helpu. ⁽⁴⁴⁾

Mae menywod o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn gallu wynebu rhagor o rwystrau os nad yw gwybodaeth neu wasanaethau ar gael iddynt neu os nad ydynt yn ystyried asiantaethau fel lle i gael cymorth oherwydd profiadau blaenorol o hiliaeth. ⁽³⁾

Priodas dan orfod

Nid yw 'gorfodi rhywun i briodi' yn drosedd benodol yn y DU ar hyn o bryd. Er hynny, gellir cosbi troseddwr – rhieni neu aelodau'r teulu fel arfer – am droseddau sy'n gysylltiedig â gorfodi rhywun i briodi, fel herwgipto a charcharu ar gam.

Ni wyddom yn union faint o bobl sy'n cael eu gorfodi i briodi bob blwyddyn, am nad yw llawer o'r dioddefwyr yn gofyn am gymorth neu'n dweud eu bod yn cael eu gorfodi i briodi. Er hynny, mae Uned Priodi dan Orfod Llywodraeth San Steffan yn ymdrin ag o leiaf 250 o achosion bob blwyddyn ⁽²⁴⁾ ac mae tua 85% o'r achosion hyn sy'n dod i sylw'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad yn cynnwys menywod. ⁽²⁸⁾

Anffurfio genitalia menywod

Er nad yw'r Llywodraeth wedi cynnal unrhyw astudiaeth i weld pa mor gyffredin yw achosion o anffurfio genitalia menywod, mae data arolwg o'r llafurlu 1999 yn amcangyfrif bod 74,000 o fenywod yn y DU wedi dioddef hyn, a bod 7,000 o ferched ifanc o dan 16 mewn perygl o hynny. ⁽²⁸⁾

Mewnfudo

Pwysleisiodd Cymorth i Fenywod fod sefyllfa ansicr y fenyw yn rhoi cyfle i'w phartner ei rheoli, a bod bygythiad o gael ei halltudio o'r wlad yn cyfyngu ar ei dewisiadau. Mae menywod sy'n cyrraedd y DU gyda fisa gwraig yn wynebu anawsterau penodol os ydynt yn gadael eu gŵr treisgar cyn pen 12 mis ar ôl cyrraedd yma. O dan y rheol 2 flynedd, nid oes ganddynt hawl i gael arian cyhoeddus ac felly ni allant hawlio budd-daliadau. Felly, nid oes gan lawer o fenywod ddewis ond dibynnu ar eu gŵr neu eu partner. Gallant gael eu

halltudiod o'r wlad hefyd - ac mae partneriaid sy'n cam-drin yn defnyddio hyn fel bygythiad yn aml.

Mae ceisiadau am hawl i aros yn y DU am gyfnod amhenodol yn gallu cymryd cryn dipyn o amser. Yn y cyfamser, ni all menywod sydd eisiau cefnu ar berthynas dreisgar wneud cais am Gymhorthdal Incwm, Credyd Teulu, Budd-dal Plant, Budd-dal Tai, Budd-dal Treth Gyngor, Lwfans Gweithio i'r Anabl, Lwfans Gweini, Lwfans Anabledd Difrifol, Lwfans Gofal Analluedd, Lwfans Byw i'r Anabl, a Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar Incwm. Mae tua 500 o fenywod sy'n dioddef trais gan eu partner bob blwyddyn yn methu â chael Budd-dal Tai a chymorth arall – fel lle mewn lloches – oherwydd rheolau mewnfudo llym. ⁽²⁷⁾

Mae Cymorth i Fenywod yn dadlau bod hyn yn gorfodi'r fenyw i ddioddef trais am gyfnod hirach, ac y gallai mwy o blant yn cael eu geni ar aelwydydd treisgar.

Anabledd

Roedd oddeutu 156 o fenywod anabl a 61 o blant anabl yn derbyn cymorth tuag at drais domestig yn Lloegr ar Ddiwrnod Cyfrifiad Cymorth i Fenywod Lloegr ar 2 Tachwedd 2004. ⁽¹⁷⁾

Mae Cymorth i Fenywod yn pwysleisio fod menywod anabl ddwywaith fwy tebygol o ddioddef trais domestig na menywod nad ydynt yn anabl. Maen nhw hefyd yn fwy tebygol o brofi trais dros gyfnod hirach, ac o ddioddef anafiadau gwaeth yn sgil hynny.

Mae'n bosibl bod menywod anabl yn cael eu cam-drin yn wahanol i fenywod eraill. Er enghraifft, gallai rhywun gyffwrdd yn y fenyw anabl mewn modd amhriodol tra'n ceisio ei 'chynorthwyo'. Os yw'r sawl sy'n cam-drin hefyd yn gofalu am y fenyw anabl, efallai ei bod yn anwybyddu ei cheisiadau neu'n ei gorfodi i ymbil am gymorth. Gallai hefyd guddio ei meddyginiaeth, neu ei ddefnyddio i'w drysu. Gall y sawl sy'n cam-drin fanteisio ar ddiffyg hunan-barch y fenyw, neu feithrin y syniad na allai'r fenyw anabl ddygymod heb ei 'chynhaliwr'.

Mae menywod anabl mewn mwy o berygl oherwydd eu bod yn fwy bregus yn gorfforol, ac yn llai tebygol o allu dianc o sefyllfa arbennig. Mae Cymorth i Fenywod yn dadlau bod menywod anabl hefyd ar wahân o gymdeithas a bod y sawl sy'n cam-drin yn rheoli eu cysylltiadau â'r byd ehangach. Yn fwy na hynny, mae'n anodd datgelu achosion o gam-drin am na allai'r fenyw weld gweithiwr iechyd proffesiynol neu weithwyr cymdeithasol heb gwmni'r partner treisgar.

Gall rhwystrau eraill fel diffyg mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus neu adeiladau cyhoeddus ei gwneud hi'n anodd iawn i rai sy'n cael eu cam-drin gael y cymorth sydd ar gael i fenywod eraill. ⁽³³⁾

Oedran

Ychydig iawn o ymchwil sy'n canolbwyntio ar fenywod hŷn sy'n cael eu cam-drin. Mae Help the Aged yn nodi fod menywod hŷn yn llai tebygol o siarad am eu profiadau nag unrhyw grŵp oedran arall. Mae llawer yn cymysgu rhwng trais domestig a cham-drin pobl hŷn, sy'n golygu nad yw anghenion y grŵp hwn yn cael cymaint o sylw.

Mae Help the Aged yn credu bod gweithwyr iechyd a chymdeithasol yn dueddol o feddwl mai henaint yn hytrach na thrais domestig sy'n gyfrifol am ofid ac anafiadau menywod hŷn, a'u bod felly'n llai tebygol o holi ynghylch hynny. Mae Horvath a Kelly (2007) yn cydnabod bod menywod hŷn sy'n ceisio gadael perthynas dreisgar yn debygol o wynebu rhwystrau ychwanegol wrth geisio cael cymorth. Efallai bod menywod hŷn yn gweld bod diffyg darpariaethau pensiwn ar wahân yn effeithio ar eu sefyllfa economaidd, bod llai o gyfleoedd i aros gyda ffrindiau a pherthnasau, a'u bod yn teimlo nad yw cartrefi lloches yn addas iddynt. Mae'n bosibl hefyd fod menywod hŷn yn gofalu am bartneriaid treisgar a/neu am eu plant anabl, ac nad ydynt yn ymwybodol o'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael iddynt. ⁽³⁹⁾

Menywod lesbaidd a deurywiol

Er bod yr adroddiad hwn yn trafod menywod sy'n dioddef cam-drin domestig gan ddynion, mae'n werth nodi hefyd bod perthnasau un rhyw yn gallu bod yn dreisgar. Yn ôl Cymorth i Fenywod, bydd y sawl sy'n cam-drin menywod lesbaidd neu ddeurywiol hefyd yn tansellio eu rhywioldeb ac yn bygwth cyhoeddi eu rhywioldeb i'w teuluoedd, cydweithwyr a chyflogwyr. Gall menywod lesbaidd a deurywiol wynebu rhwystrau ychwanegol wrth geisio cael cymorth a chefnogaeth. Mae Cymorth i Fenywod yn dweud bod rhai menywod yn ofni cysylltu ag asiantaethau oherwydd agweddau homoffobig neu elyniaethus, a rhag ofn y byddai'n arwain at feirniadu holl fenywod lesbaidd a deurywiol.

Cam-drin domestig a'r gyfraith

Mae Deddf Anffurfio Genitalia Menywod (2003) yn amddiffyn menywod duon a lleiafrifoedd ethnig fwyfwy trwy ei gwneud hi'n anghyfreithlon am y tro cyntaf erioed i ddinasyddion neu breswylwyr parhaol y DU anffurfio genitalia menywod dramor, neu gynorthwyo, annog neu achosi hynny dramor (hyd yn oed mewn gwledydd lle mae'n gyfreithlon).

Mae'r gosb uchaf am wneud hynny wedi cynyddu o 5 i 14 blynedd o garchar.

Deddf Anffurfio Genitalia Menywod (2003)

Cam-drin domestig a'r gyfraith

Nid yw 'Cam-drin Domestig' yn drosedd benodedig mewn Cyfraith Trosedd heddiw. Mae hyn yn golygu y byddai'r sawl sy'n gyfrifol am gam-drin domestig yn cael ei gyhuddo am droseddau fel aflonyddu, herwgipio neu ymgais i lofruddio fel arfer, yn hytrach na 'cham-drin domestig' yn benodol.

Nid oedd y system cyfiawnder troseddol yn rhoi fawr o sylw i anghenion menywod a phlant oedd yn profi trais domestig tan ddiwedd yr 1980au. Roedd trais domestig yn cael ei drin fel mater preifat gan amlaf, nid trais 'go iawn', ac roedd yr heddlu gwrywaidd yn bennaf yn dueddol o ochri gyda'r dyn/gŵr treisgar.⁽²³⁾ Pe bai'r heddlu'n ymyrryd â ffrae deuluol (*domestics*), roedd hynny'n aml yn cael ei ystyried yn 'ymyrryd mewn materion preifat' neu ddim yn haeddu llawer o sylw'r heddlu gan mai prin oedd yr erlyniadau llwyddiannus. Byddai'r heddlu'n meithrin agwedd negyddol wedyn wrth i heddweision ganfod eu hunain yng nghanol ffrae rhwng cyplau cynhennus. Byddai'r agwedd negyddol hon yn gwaethygu gan nad oedd y "dioddefwyr" yn barod i roi tystiolaeth ysgrifenedig, neu'n gwrthod cydweithio â'r erlyniad ar ôl rhoi tystiolaeth ysgrifenedig. ⁽³²⁾

Deddf Trosedd ac Anhrefn (1997)

Mae'r ddeddf hon yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol a'r heddlu i gydweithio ag asiantaethau eraill i fynd i'r afael â throseddau lleol trwy lunio Strategaeth Diogelwch Cymunedol a ddylai gynnwys cam-drin domestig.

Deddf Amddiffyn ac Aflonyddu (1997)

Bwriad y ddeddf hon oedd ymdrin â stelcwyr ac amddiffyn menywod sy'n cael eu cam-drin yn fwy effeithiol, yn enwedig rhai nad ydynt yn byw gyda'r sawl oedd yn eu cam-drin mwyach. Mae'n cynnwys nifer o fanteision posibl gan gynnwys dewisiadau cryf i'r heddlu amddiffyn menywod a defnyddio cyfraith trosedd yn erbyn dynion sy'n bygwth, poeni ac yn aflonyddu ar fenywod ar ôl i'r berthynas ddod i ben. ⁽⁴⁴⁾

Deddf Anffurfio Genitalia Menywod (2003)

Mae'r ddeddf hon yn diddymu, ailddeddfu a chryfhau darpariaeth Deddf Gwahardd Enwaedu Benywod 1985. Mae'r darpariaethau hyn wedi cyflwyno trosedd newydd o fynd â menyw dramor er mwyn anffurfio genitalia neu helpu rhywun nad yw'n un o ddinasyddion y DU i anffurfio menyw mewn gwlad dramor. Cynyddwyd y gosb uchaf o 5 mlynedd i 14 blynedd o garchar.

Deddf Trais Domestig, Troseddau a Dioddefwyr (2004)

Nod y ddeddf hon yw rhoi'r dioddefwyr wrth galon y system cyfiawnder ieuencid ac mae'n cynnwys pwerau cryfach i'r heddlu a'r llysoedd amddiffyn y dioddefwyr ac erlyn y rhai sy'n cam-drin. Mae'r mesurau'n cynnwys gorchymyn cadw draw i rai a gafwyd yn euog o drais domestig (ac mewn rhai achosion lle cafwyd rhyddfarniad) i sicrhau diogelwch y dioddefwyr. Mae hefyd yn golygu bod modd arestio rhywun am ymosodiad cyffredin. Mae'r Ddeddf yn cael ei

hystyried fel mesur hanfodol sy'n cryfhau hawliau'r dioddefwyr a thystion, a sicrhau eu bod nhw'n cael y cymorth a'r amddiffyniad angenrheidiol.

Dyletswydd Cydraddoldeb Rhywiol

Ym mis Ebrill 2007, daeth y newid mwyaf i'r ddeddfwriaeth cydraddoldeb rhywiol ers i'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw ddod i rym - sef y Ddyletswydd Cydraddoldeb Rhywiol. Mae'r Ddyletswydd hon yn gofyn i bob awdurdod cyhoeddus gael gwared ar wahaniaethu anghyfreithlon ar sail rhyw ac aflonyddu, a hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng dynion a menywod. Mae hyn yn golygu fod rhaid i awdurdodau cyhoeddus flaenoriaethu camau i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau mwyaf rhwng y rhywiau fel rhan o'u cylch gorchwyl, a gweithredu ar gamau sydd fwyaf tebygol o sicrhau'r canlyniadau gorau o ran cydraddoldeb rhywiol

http://www.eoc.org.uk/PDF/GED_CoP_Draft.pdf

Mae cam-drin domestig yn cael ei ystyried yn un o'r mathau mwyaf difrifol o anghydraddoldeb rhywiol, felly mae'n rhaid i'r awdurdodau ystyried pa gamau gallant eu cymryd

- I leihau'r achosion o gam-drin domestig
- I leihau effeithiau cam-drin domestig trwy ymyrryd yn gyflym, yn sensitif ac effeithiol
- I ddiogelu'r rhai sydd mewn perygl
- I roi cymorth i rai sydd wedi'u cam-drin.

Mae'r gofynion hyn yn berthnasol i'r awdurdodau yn eu gwaith fel darparwyr gwasanaethau a chyflogwyr.

Priodas dan orfod

Nid yw gorfodi rhywun i briodi yn drosedd benodol yng Nghymru a Lloegr. Er hynny, gellir cyflawni trosedd sy'n gysylltiedig â gorfodi rhywun i briodi, fel ymddwyn yn fygythiol, ymosod, herwgipio, carcharu ac ati. Mae'r Arglwydd Lester o Herne Hill wedi cyflwyno mesur cyhoeddus sef Mesur Priodas dan Orfod (Amddiffyn Sifil) gerbron senedd San Steffan, sydd wrthi'n cael ei drafod yn Nhŷ'r Arglwyddi ar hyn o bryd. Bydd y mesur yn cynnwys darpariaeth i amddiffyn unigolion rhag cael eu gorfodi i briodi heb eu caniatâd llawn nhw, ac at ddibenion cysylltiedig.

Polisi Llywodraeth San Steffan

Mae Llywodraeth San Steffan yn dweud ei fod yn: -

‘Ymrwymo i helpu dioddefwyr trais domestig, rhoi gwell cymorth a diogelwch i’r dioddefwyr a’u plant a dod â’r rhai sy’n cyflawni’r drosedd erchyll hon o flaen eu gwell.’

‘Domestic Violence, a national report’, Y Swyddfa Gartref 2005

Polisi Llywodraeth San Steffan

Ym mis Mehefin 2003, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Cartref bapur ymgynghori *'Safety and Justice: the Government's proposal on domestic violence.'* Roedd y ddogfen hon yn cyflwyno strategaeth y Llywodraeth i fynd i'r afael â cham-drin domestig mewn tair rhan – 1, Atal, 2, Amddiffyn a Chyfiawnder a 3, Cymorth. Roedd yn cynnwys cynigion ar gyfer cyflwyno newidiadau deddfwriaethol ac anneddfwriaethol ar gyfer ymdrin â cham-drin domestig yng Nghymru a Lloegr.

Atal

Yn 2003, sefydlwyd grŵp Rhyng-weinidogol i lywio camau gweithredu'r Llywodraeth ar faterion cam-drin domestig. ⁽²⁰⁾

Cyhoeddwyd canllawiau rhannu gwybodaeth i ymarferwyr fel eu bod yn ymwybodol o'r hyn y gallant ac y dylent ei wneud os ydynt yn amau neu'n clywed am achos o gam-drin domestig.

Cynhaliwyd ymgyrch i hyrwyddo llinell gymorth 24 awr ddi-dâl ar gyfer y DU, ynghyd â chodi ymwybyddiaeth gyffredinol.

Aeth y Llywodraeth ati i ariannu cyfres sebon i bobl ifanc er mwyn eu haddysgu am drais domestig, a dosbarthwyd copïau i bob ysgol uwchradd.

Cafodd llinell gymorth genedlaethol ar gyfer pobl o gymunedau lesbaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol ei lansio a'i hariannu ar y cyd â Broken Rainbow.

Cyhoeddwyd canllawiau arferion da er mwyn annog a galluogi pobl i ddatgelu achosion o drais domestig mewn amrywiaeth o feysydd iechyd.

Amddiffyn dioddefwyr a dod â throeddwyd o flaen eu gwell

Yn ystod mis Mawrth 2004, cyhoeddodd y Llywodraeth adroddiad yn gwerthuso'r llysoedd sy'n arbenigo ar drais domestig. Nod y llysoedd arbenigol hyn oedd cydnabod yr anawsterau a'r pryderon arbennig sy'n wynebu dioddefwyr trais domestig wrth ddefnyddio'r system gyfiawnder. ⁽²⁰⁾ Bellach, mae 25 o lysoedd arbenigol ar waith yn sgil y gwerthusiad. Mae'r llywodraeth yn bwriadu cynyddu'r nifer i dros 50 erbyn mis Ebrill 2007, gan fod ymchwil yn dangos bod y llysoedd yn cael effaith ar erlyniadau ac euogfarnau. ⁽³⁴⁾

Ar 31 Mawrth 2005, cyhoeddodd y Swyddfa Gartref Gynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer trais domestig er mwyn cyflwyno fframwaith strategol i fynd i'r afael â thrais domestig yn rhanbarthol a lleol.

Diweddarwyd y cynllun ym mis Mawrth 2007, sy'n dangos cynnydd sylweddol.

Cafodd Rhaglenni Cyflawnwyr Trais Domestig eu rhoi ar waith fesul cam ym mhob ardal y Gwasanaeth Prawf yng Nghymru a Lloegr.

Yn 2007, cyhoeddwyd y byddai nifer y Cynadleddau Asesu Risg Amlasiantaeth (MARAC) yn cael eu dyblu gyda hwb ariannol o bron i £2 filiwn. Mae MARAC yn galluogi asiantaethau lleol i gydweithio i nodi'r dioddefwyr sydd mewn perygl fwyaf a chynllunio i'w cadw'n ddiogel. Bydd 100 MARAC wedi'u sefydlu erbyn 2008.

Bellach, mae gan bob un o'r 43 gwasanaeth heddlu bolisiau penodol ar drais domestig ac unedau trais domestig. Mae gan yr heddlu bolisi cenedlaethol a gweithdrefnau gan gynnwys hyfforddiant ar drais domestig, a disgwylir i'r holl heddluoedd gydymffurfio gyda nhw. ⁽²³⁾

Mae rhwydwaith o gydgysylltwyr Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi'u sefydlu, ynghyd â pholisi cenedlaethol ar drais domestig.

Cefnogi'r dioddefwyr a'u plant

Sefydlwyd Llinell Gymorth Trais Domestig 24 awr ar gyfer y DU ym mis Rhagfyr 2003. Noddwyd y gwasanaeth rhadffôn hwn gan Refuge, Cymorth i Fenywod, Comic Relief, gyda chyfraniad o £1m gan y llywodraeth. Refuge a Cymorth i Fenywod sy'n cydreddeg y llinell gymorth hon heddiw.

Neilltuwyd £32 miliwn ar gyfer gwneud gwelliannau i lochesi hen a newydd, trwy gyfrwng Cyfarwyddiaeth Digartrefedd a Chymorth Tai Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Housing Corporation.

Yn 2004, cyhoeddwyd canllawiau arferion da ar sut i helpu plant sydd wedi gweld achosion o drais domestig.

Ym mis Ionawr 2005, cyflwynwyd ffurflenni newydd er mwyn cynnwys cyhuddiadau o drais domestig o'r cychwyn cyntaf fel rhan o geisiadau llys am drefniadau cyswllt a phreswyl yn ymwneud â phlant.

Cyhoeddwyd Cynllun Gweithredu Trawslywodraeth ar Drais a Cham-drin Rhywiol ym mis Ebrill 2007. Mae'r cynllun hwn yn cyfuno'r mesurau sydd ar y gweill ac wedi'u cynllunio dros y flwyddyn nesaf i gyflwyno'r prif amcanion ar drais a cham-drin rhywiol. Ei nod yw atal achosion o drais a cham-drin rhywiol, sicrhau bod mwy o gyfleoedd i rai sy'n dioddef trais rhywiol gael cymorth a gwasanaethau iechyd, a gwella ymateb y system cyfiawnder troseddol i drais a cham-drin rhywiol. Gallwch weld y cynllun gweithredu hwn yn: <http://www.homeoffice.gov.uk/documents/Sexual-violence-action-plan?view=Binary>

Ym mis Mawrth 2007, cyhoeddwyd Cynllun Gweithredu Trawslywodraeth ar Fasnachu Pobl. Mae'r cynllun gweithredu hwn yn cyfuno'r holl waith sy'n cael ei wneud ledled y llywodraeth er mwyn mynd i'r afael â'r broblem masnachu

pobl, fel sail i daclo'r broblem yn y dyfodol. Y nod yw sicrhau cydbwysedd rhwng amddiffyn a chynorthwyo dioddefwyr â gwaith gorfodi sy'n cosbi grwpiau troseddu cyfundrefnol. Mae'r cynllun hwn i'w weld yn: <http://www.homeoffice.gov.uk/documents/human-traffick-action-plan?view=Binary>

Strategaeth y DU

Mae'r sefydliad End Violence Against Women (EVAW) wedi paratoi adroddiad blynyddol *Making the Grade?* (2006) sy'n gwerthuso mentrau'r llywodraeth ar gyfer trais yn erbyn menywod. Gofynnwyd i adrannau'r llywodraeth ddweud beth maen nhw'n ei wneud i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, ac fe'u haseswyd ar sail 20 o gwestiynau cyn rhoi marc allan o 10 iddynt.

Er bod rhai adrannau'n gwneud cryn dipyn o waith, dadl EVAW yw nad oes fframwaith fel sail i'r cyfan. Mae adroddiad *Making the Grade?* (2006) yn dangos nad yw llawer o adrannau yn cydnabod trais yn erbyn menywod o hyd. Mae EVAW yn credu bod hyn yn golygu colli cyfle i gysylltu trais yn erbyn menywod â materion polisi ehangach fel lloches, cynhyrchiant yn y farchnad waith, cynhwysiant cymdeithasol, tai, ofn troseddau, merched beichiog yn eu harddegau, a rhaglenni wedi'u cynllunio i helpu rhieni sengl i ddod o hyd i waith addas. ⁽²⁸⁾

Mae llawer o'r gwaith yn cael ei ailadrodd ym meysydd eraill y llywodraeth. Eisoes, mae grŵp rhyng-weinidogol yn gweithio ar faterion trais domestig a throseddau rhywiol ochr yn ochr â grŵp rhyng-weinidogol ar gyfer priodasau dan orfod ac anffurfio genitalia menywod. Mae'r Women's National Commission o'r farn nad yw'r strwythurau ailadroddus hyn yn effeithlon na chynhyrchiol, a'u bod yn cael eu hadlewyrchu ar lefelau lleol ac asiantaethol ledled y DU. ⁽⁴³⁾

Ym 1995, aeth y DU ati i lofnodi'r BPfA oedd yn gofyn i lywodraethau roi cynlluniau gweithredu cenedlaethol ar waith i ddileu trais yn erbyn menywod. Mae EVAW a'r Women's National Commission yn galw ar y llywodraeth i adeiladu ar y gwaith sy'n cael ei wneud a datblygu strategaeth drawsadrannol i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod - gyda chanolbwynt ar atal hynny yn y lle cyntaf. ⁽²⁸⁾ Mae EVAW yn dadlau mai'r her fydd meithrin dull integredig a chydgyssylltiedig sy'n cyfuno mentrau wedi'u targedu i hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol (gan gynnwys dileu trais yn erbyn menywod) a phrif ffrydio cydraddoldeb rhywiol ym mhob sector. Pwysleisiodd bod angen systemau cryf ar sail rhyw i gyd-fynd â'r ymdrechion hyn, ac y bydd hynny'n sicrhau cydgysylltiadau a swyddogaethau gwell fel sbardun i weithredu. ⁽²⁸⁾

Polisi Llywodraeth y Cynulliad

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod bod cam-drin yn y cartref yn broblem ddifrifol yng Nghymru ac mae'n ymrwymedig i'w ddileu o gymdeithas yng Nghymru.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2005)

Polisi Llywodraeth y Cynulliad

Ym mis Mawrth 2005, fe lansiodd Llywodraeth y Cynulliad adroddiad *'Mynd i'r Afael â Cham-drin yn y Cartref: Strategaeth Genedlaethol Cymru Gyfan, Dull cydasiantaethol o weithredu'*. Mae'r adroddiad yn cyflwyno strategaeth Llywodraeth y Cynulliad i fynd i'r afael â cham-drin domestig yng Nghymru. Fe'i paratowyd gan Lywodraeth y Cynulliad a thrawsdoriad eang o sefydliadau Cymreig, gan gynnwys asiantaethau rheng flaen. Mae prif egwyddorion y strategaeth yr un fath â rhai Llywodraeth San Steffan yn y bôn:

- Diogelwch a chymorth i ddioddefwyr
- Gwneud y rhai sy'n cam-drin yn atebol
- Atal

Mae'r strategaeth hefyd yn trafod y rhwystrau eraill, posibl, sy'n wynebu dioddefwyr trais domestig sy'n byw yng nghefn gwlad a rhai sy'n siarad Cymraeg.

Mae llawer o gynlluniau wedi'u rhoi ar waith ers cyhoeddi'r strategaeth hon, gan gynnwys:

Gweithgor Cymru Gyfan

Cafodd 'Gweithgor Cymru Gyfan' ei sefydlu i roi cyngor i sicrhau bod pobl yn cydweithio ledled y wlad. Mae'r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o Isadrannau perthnasol y Cynulliad ac o sefydliadau allanol allweddol sy'n dod i gysylltiad â dioddefwyr cam-drin domestig o ddydd i ddydd. Cylch gorchwyl y grŵp yw monitro a gwerthuso datblygiad Strategaeth Cam-drin yn y Cartref Cymru Gyfan, cynghori Llywodraeth y Cynulliad a rhannu arferion da sefydledig.

Llinell Gymorth Cam-drin Domestig Cymru Gyfan

Un o brif fesurau'r strategaeth oedd adolygu 'Llinell Gymorth Cam-drin Domestig Cymru Gyfan'. Roedd y llinell gymorth hon yn rhoi cymorth am ddim, cyfrinachol, hollbwysig 12 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn yn y Gymraeg a'r Saesneg i fenywod, dynion a phlant sy'n dioddef cam-drin domestig. Yn dilyn yr adolygiad hwn, sicrhawyd £250,000 o arian ychwanegol er mwyn helpu'r sefydliad Cymorth i Fenywod i datblygu'r Llinell Gymorth yn wasanaeth 24 awr, a chyflogi 6 o weithwyr ffôn.

Secondai Priodas dan Orfod

Cytunwyd i recriwtio 'secondai priodas dan orfod' i ymchwilio i faint y broblem hon yng Nghymru, a chysylltu gydag Uned Priodas dan Orfod Whitehall.

Rhwydwaith cydgysylltwyr cam-drin domestig Cymru gyfan

Mae Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 yn gofyn i awdurdodau lleol a'r heddlu sefydlu partneriaethau trosedd ac anhrefn lleol i leihau'r achosion o droseddau yn eu hardaloedd nhw. Mae hyn yn annog pawb i gydgysylltu i leihau troseddau a bod asiantaethau a phartneriaethau'n gweithio'n effeithiol mewn

partneriaeth. Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yw'r rhain yng Nghymru. Mae Strategaeth Genedlaethol Cymru gyfan yn nodi bod "rhaid rhoi blaenoriaeth i gam-drin yn y cartref a'i wneud yn rhan o'r Cynllun Diogelwch Cymunedol lleol". Mae'r Cynulliad Genedlaethol yn parhau i gefnogi a sefydlu rhwydwaith cenedlaethol o Gydgysylltwyr Cam-drin Domestig ac yn ariannu swydd Cydgysylltydd Cam-drin Domestig ym mhob Partneriaeth Diogelwch Cymunedol.

Llwybr Cymru Gyfan

Sefydlwyd 'Llwybr Cymru Gyfan' i sicrhau bod holl weithwyr iechyd proffesiynol Cymru yn cynnal ymholiadau rheolaidd ar gam-drin domestig yn ystod y cyfnod cynenedigol. Cyhoeddwyd a dosbarthwyd pecynnau hyfforddi ar gyfer pob ymddiriedolaeth GIG ym mis Hydref 2005. Dechreuodd yr hyfforddiant ym mis Tachwedd 2005.

Ar ôl cyflwyno'r Llwybr Gofal Cynenedigol yn llwyddiannus ledled Cymru, cytunwyd y dylid ehangu'r gwaith hwn i'r gwasanaethau Damweiniau ac Achosion Brys. Dyrannwyd £23,000 o'r Gronfa Cam-drin Domestig ar gyfer 2006/07 er mwyn penodi nyrs ar secondiad i gynnal ymchwiliad 9 mis 'Cymru gyfan' i'r achosion o gam-drin domestig a welwyd mewn adran ddamweiniau ac achosion brys.

Rhaglen Llys Arbenigol Trais Domestig

Datblygwyd y rhaglen hon ar ôl gwerthuso saith o systemau llys arbenigol ar hyd a lled Prydain, gan gynnwys llysoedd peilot yng Nghaerffili a Croydon. Roedd canlyniadau'r gwerthusiad yn dangos bod modd sicrhau gwelliannau sylweddol i ganlyniadau achosion o drais domestig trwy fabwysiadu arferion gwaith penodedig.

Cefnogi Pobl: Canllawiau ar Drais yn y Cartref

Nod y canllawiau hyn, sy'n destun ymgynghori ar hyn o bryd, yw ategu Strategaeth Genedlaethol Cymru Trais yn y Cartref – sydd wedi'u hysgrifennu o safbwynt cefnogi pobl, gyda'r bwriad o helpu timau cefnogi pobl ac aelodau'r cyrff comisiynu; ynghyd â'r sefydliadau sy'n rhoi gwasanaethau i'r cleientiaid hyn.

Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol

Dyma ganolfannau un-stop sy'n rhoi gofal meddygol a gwasanaeth cwnsela cyflym a chydymdeimladol i rai sydd wedi dioddef ymosodiad rhywiol. Rhoddwyd swm ychwanegol o £150,000 yn 2006-07 tuag at grantiau sefydlu untro i ddatblygu rhagor o Ganolfannau Atgyfeirio neu fwy o wasanaethau cwnsela i ddioddefwyr ymosodiadau rhywiol sy'n cyrraedd mwy o bobl yng Nghymru.

Arferion da mewn perthynas â Cham-drin Domestig

Cyhoeddwyd y llyfryn gwybodaeth hwn i ysgolion ddiwedd Mawrth 2004, ac fe'i dosbarthwyd ar led i ysgolion, awdurdodau addysg lleol, cyrff addysgu a sefydliadau ieuenctid. Mae'n adeiladu ar weithdrefnau amddiffyn plant cyfredol, gyda'r nod o helpu athrawon a staff cymorth i gydnabod a deall plant a phobl ifanc sy'n dioddef cam-drin domestig.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn argymhell y dylid trin a thrafod materion cam-drin domestig fel rhan o ethos 'ysgol gyfan' ac fel rhan o ddiwylliant sefydliadau eraill sy'n gwneud gwaith ieuenctid. Byddai meithrin dull strategol o atal achosion o gam-drin yn golygu gweithredu rhaglenni gorfodol sy'n canolbwyntio ar fechgyn a merched o oedran ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Dyma fydd nod y rhaglen:

- Llai o oddefgarwch tuag at bob math o drais yn erbyn menywod
- Codi ymwybyddiaeth bod trais yn erbyn menywod yn drosedd
- Cefnogi dynion a merched ifanc i feithrin cysylltiadau a pherthnasau iach wedi'u seilio ar barch a chydraddoldeb;
- Annog pobl ifanc i fod yn ddinasyddion gweithgar a mynd ati i greu ysgolion a chymunedau diogel nad ydynt yn goddef trais yn erbyn menywod.

Prosiect Dyn

Mae partneriaeth Caerdydd Ddiogelach wedi sefydlu llinell gymorth i ddynion, Prosiect Dyn, ar gyfer dynion sy'n dioddef cam-drin domestig. Mae'r prosiect yn cynnig gwasanaeth eiriolaeth a chynllunio diogelwch hefyd. Y nod yw creu siop un stop i ddynion sydd wedi profi cam-drin domestig. Bydd y prosiect yn cynnwys Cymru gyfan, gan fod prinder asiantaethau priodol i roi cymorth effeithiol i ddynion sy'n dioddef cam-drin domestig yn y wlad hon.

Cyllideb Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer Cam-drin Domestig yn 2007/08 a 2008/09 yw £3.774 miliwn.

Argymhellion

Rhoi diwedd ar y tawelwch

Siaradwch am gam-drin domestig, gwnewch eich sefydliad yn lle diogel i weithwyr allu trafod, datgelu a gofyn am gymorth. O ganlyniad, bydd hi'n haws i weithwyr labelu eu profiad fel trais domestig a gofyn am gymorth. Mae tawelwch a thabwau ynghylch cam-drin domestig yn cydgynllwynio â'r sawl sy'n cam-drin.

Comisiwn Cyfle Cyfartal

Argymhellion

Yn ogystal â strategaethau ac argymhellion Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r DU i fynd i'r afael â cham-drin domestig, mae yna hefyd nifer o sefydliadau anllywodraethol sydd ag argymhellion:

Cymorth i Fenywod

Cymorth i Fenywod yw'r sefydliad mantell cenedlaethol sy'n cynrychioli grwpiau Cymorth i Fenywod lleol yng Nghymru. Mae'r 34 grŵp aelod yn darparu cymorth uniongyrchol sy'n canolbwyntio ar fenywod yn y gymuned ac mewn llochesi i filoedd o fenywod a phlant sydd wedi neu'n parhau i ddioddef cam-drin domestig.

Mae argymhellion Cymorth i Fenywod i'w gweld yn:

<http://www.welshwomensaid.org/index.html>

End Violence Against Women

Mae End Violence Against Women yn grŵp o unigolion a sefydliadau sy'n galw ar y Llywodraeth, cyrff cyhoeddus ac eraill i weithredu gyda'i gilydd i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod. Mae aelodau yn cynnwys Rape Crisis, Cymorth i Fenywod, Comisiwn Cenedlaethol y Menywod, Amensty International UK a Chyngres yr Undebau Llafur.

Mae argymhellion End Violence Against Women i'w gweld yn:

<http://www.endviolenceagainstwomen.org.uk/>

Comisiwn Cenedlaethol y Menywod

Comisiwn Cenedlaethol y Menywod yw'r corff cynghori swyddogol ac annibynnol sy'n cyflwyno barn menywod i lywodraeth y DU. Mae'n sefydliad mantell sy'n cynrychioli menywod a sefydliadau menywod yng Nghymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr i sicrhau bod y llywodraeth yn ystyried barn menywod a bod barn menywod yn cael ei glywed mewn trafodaethau cyhoeddus.

Mae argymhellion Comisiwn Cenedlaethol y Menywod i'w gweld yn:

<http://www.thewnc.org.uk/pubs/unlockingthesecret.pdf>

Mae'r Comisiwn Cyfle Cyfartal wedi cymryd rhai camau syml o'r argymhellion hyn i egluro sut gall eich sefydliad helpu i fynd i'r afael â cham-drin domestig.

Rhoi diwedd ar y tawelwch

Siaradwch am gam-drin domestig, gwnewch eich sefydliad yn lle diogel i weithwyr allu trafod, datgelu a gofyn am gymorth. O ganlyniad, bydd hi'n haws i weithwyr labelu eu profiad fel trais domestig a gofyn am gymorth. Mae tawelwch a thabŵau ynghylch cam-drin domestig yn cydgyllwynio â'r sawl sy'n cam-drin.

Codi ymwybyddiaeth

Rhowch bosteri a thafleuni ynglŷn â cham-drin domestig mewn mannau cyhoeddus a thoiledau menywod. Sicrhewch bod gweithwyr cyflogedig ac

ymwelwyr yn gallu gweld posterï'r llinell gymorth genedlaethol a sefydliadau cam-drin domestig. Lle bo'n bosibl, casglwch ddata am faint mae'ch sefydliad yn ymdrin â materion cam-drin domestig.

Darparu hyfforddiant ar gam-drin domestig

Dylid cydnabod yr angen i ddarparu hyfforddiant i staff fel eu bod yn ymwybodol o broblemau cam-drin domestig a'i effeithiau. Mae'n bwysig bod staff allweddol yn ymwybodol o'u swyddogaethau a'u cyfrifoldebau i nodi, adrodd ac ymateb i oroeswyr a'r sawl sy'n cyflawni'r drosedd. Dylai hyfforddiant parhaus ar gam-drin domestig a'i effaith ar y gweithle fod yn ofynnol i bawb.

Cael polisi ar gam-drin domestig

Dylid cydnabod fod cam-drin domestig yn broblem ddifrifol. Dylai polisi cam-drin domestig gweithle ddatgan yn glir nad yw'r sefydliad yn goddef trais domestig, ei fod wedi ymrwymo i ymateb yn sensitif ac yn effeithiol i bobl sydd angen cymorth, ac i weithredu yn erbyn y sawl sy'n cyflawni trais domestig.

Cynnig cymorth

Dylech fod yn gyfarwydd â gwasanaethau cam-drin domestig a gynigir yn eich ardal. Pan fydd achos o gam-drin domestig yn cael ei ddatgelu, mae'n hanfodol fod eich sefydliad yn gallu egluro hawliau a pha wasanaethau sydd ar gael iddyn nhw, gan eu harwain yn briodol ac ymateb yn deimladwy i'w sefyllfa heb farnu.

Cyfeiriadau

1. Cyngor Ewrop (2002). Recommendation Rec (2002)5 of the Committee of Ministers to member states on the protection of women against violence adopted on 30 April 2002 and explanatory memorandum. Cyngor Ewrop: Strasbourg, Ffrainc.
2. Corporate Alliance Against Domestic Violence [ar-lein]. 2005 [dyfynnwyd 2006 Tachwedd 22]. Ar gael yn: <http://www.corporateallianceuk.com/home.asp>
3. Howys S. Children, Young people & Domestic Abuse, Campaign report – Cymorth i Fenywod
4. Simmons J and Colleagues. Crime in England and Wales 2001/2002. Llundain; 2002
5. Burton S, a Kitzinger T, (1998) Young People's Attitudes Towards Violence, Sex and Relationships: A survey and focus group study, Zero Tolerance Charitable Trust.
6. Social Justice and Regeneration: Final stage policy document Tachwedd 2006 Caerdydd, Llafur Cymru
7. Graham, D.L.R., Rawlings, E. a Rimini, N., "Survivors of Terror: Battered Women, Hostages, and the Stockholm Syndrome." yn Yllo, K. a Bograd, M. (golygyddion), Feminist Perspectives on Wife Abuse, Sage Publications, 1988
8. Heddlu De Cymru
9. Heddlu De Cymru. Domestic Abuse. [ar-lein]. 2005 [dyfynnwyd 2006 Tachwedd 8]; Ar gael yn <http://www.south-wales.police.uk/fe/master.asp?n1=2&n2=291>
10. Walby S. The Cost of Domestic Violence, Women and Equality Unit 2004 Medi
11. Domestic Violence. [ar-lein]. [dyfynnwyd Tachwedd 19]; Ar gael yn: <http://www.nhsemployers.org/practice/practice-219.cfm>
12. Walby S. KEY FINDINGS: The Cost of Domestic Violence, Women and Equality Unit. Prifysgol Leeds. Medi 2004
13. Hughes, H. (1992) Impact of Spouse Abuse on Children of Battered Women. yn *Violence Update*, Awst 1:9-11.
14. Mckiernan a Mackay 1994
15. Adran Iechyd San Steffan, 2003
16. Llywodraeth Cynulliad Cymru. Llwyddiannau yng nghanolbarth Cymru [ar-lein] [dyfynnwyd Tachwedd 06] Ar gael yn: http://www.ecoliinquirywales.org.uk/location/central_wales/FMA_CentralWales_Locations/?lang=en
17. Williamson E. Women's Aid Federation of England 2005 Survey of Domestic Violence Services Findings. [ar-lein] 2006 [dyfynnwyd Tachwedd 2006] Ar gael yn: http://www.womensaid.org.uk/downloads/WA_survey_dv_service_findings.pdf

18. Ymateb sefydliad Refuge i 'Mae Pob Plentyn yn Bwysig'. [ar-lein] 2003 [dyfynnwyd Tachwedd 06] Ar gael yn: http://www.refuge.org.uk/cms_content_refuge/attachments/policyAndResearch/EveryChildMattersBill.pdf
19. Brand, S. a Price, R. (2000) 'The Economic and Social Costs of Crime', Astudiaeth Ymchwil 217 y Swyddfa Gartref, Llundain: Y Swyddfa Gartref).
20. Y Swyddfa Gartref. Domestic Violence, a National Report. Mawrth 2005
21. Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Adroddiad ar Benderfyniad [ar-lein] [dyfynnwyd Tachwedd 06] Ar gael yn: <http://www.information.wales.gov.uk/content/decisionreports/crime/justice/review%20of%20domestic%20abuse%20%20youth%20justice%20services%20grant%20scheme.rtf>
22. Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mynd i'r afael â cham-drin yn y cartref: Strategaeth Genedlaethol Cymru Gyfan, Dull cydasiantaethol o weithredu. 2005 Mawrth.
23. Cymorth i Fenywod [ar-lein] 2006 Mawrth [dyfynnwyd Tachwedd 06] Ar gael yn: <http://www.womensaid.org.uk/page.asp?section=00010001000900050001>
24. Y Swyddfa Gartref a'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad. Forced Marriage, A Wrong Not a Right.
25. Partneriaeth Abertawe Mwy Diogel. Strategaeth Cam-drin yn y Cartref Abertawe 2006-2008: Gosod y Seiliau 2006.
26. BAWSO, Adroddiad blynyddol 2003. 2003
27. Ystadegau ar fenywod yn y DU. [ar-lein] 2006 [dyfynnwyd Tachwedd 2006] Ar gael yn: <http://www.whyywomen.org.uk/Downloads/Statistics.pdf>
28. End Violence Against Women: Making the Grade? The second annual independent analysis of Government initiatives on violence against women. Tachwedd 2006, Amnesti Rhyngwladol
29. Saunders H. Twenty-nine child homicides: Lessons still to be learnt on domestic violence and child protection, Cymorth i Fenywod. 2004
30. Cymorth i Fenywod. Domestic Abuse is a Human Rights Issue [ar-lein] [dyfynnwyd Tachwedd 06] Ar gael yn: http://www.womensaid.org.uk/landing_page.asp?section=00010001001000020005
31. Hester M, Westmarland N. Tackling Domestic Violence: effective interventions and approaches, Astudiaeth Ymchwil 290 y Swyddfa Gartref Chwefror 2005
32. Polisi Heddlu Gwent ar Drais Domestig [ar-lein] Ar gael yn: http://www.gwent.police.uk/documents/f_o_i/policies/410%20-%201a%20issue%203%20domestic%20violence%20policy%2030nov2006.pdf
33. Ansell K. Hitting Home. [ar-lein] [dyfynnwyd Tachwedd 06] Ar gael yn: <http://www.bbc.co.uk/ouch/features/hittinghome.shtml>

34. Y Swyddfa Gartref. News & Publications [ar-lein] 2006 Sep [dyfynnwyd Tachwedd 06]
Ar gael yn: <http://police.homeoffice.gov.uk/news-and-publications/news/domestic-courts>
35. Allen J, Walby S. Domestic Violence, sexual assault and stalking: Findings from the British Crime Survey. Llundain: Y Swyddfa Gartref; 2004
36. Fawcett Society: Rape the Facts (2007) Ar gael yn: <http://www.fawcettsociety.org.uk/documents/Rape%20-%20The%20Facts.doc>
37. Cramer, H a Carter, M (2002). Homelessness: What's gender got to do with it? Shelter: Llundain
38. Cymorth i Fenywod: <http://www.welshwomensaid.org/news/11946.html>
39. Blood I (2004) Older Women and Domestic Violence. Help the Aged
40. Horath M & Kelly L (2007) From the Outset: Why Violence Should be a priority for the Commission for Equality and Human Rights. Prifysgol Metropolitan Llundain
41. EVAW/Fawcett Briefing for International Women's Day Debate.
42. Gwasanaeth Eryl y Goron (2005) Domestic Violence Good Practice Guidance.
43. Kelly L a Lovett (2005) What a Waste. The Case for an Integrated Violence Against Women National Strategy. Women's National Commission.
44. Women's Aid Survivor's Handbook
45. <http://www.innocentuntilproven guilty.com/women.html>

Rhifau Ffôn Llinellau Cymorth

Llinell Gymorth Cam-drin Domestig Cymru- 0808 8010 800

Cynnig cymorth i fenywod, dynion a phlant. Mae'r llinell ddwyieithog ar agor 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos ac mae galwadau o linellau tir yn y DU am ddim (gallai ambell i rwydwaith ffôn symudol godi tâl)

Gwefan: <http://www.wdah.org/>

Black Association of Women Step Out (BAWSO): 029 2043 7390

Cynnig cymorth i fenywod du a lleiafrifoedd ethnig.

Gwefan: <http://www.bawso.org.uk/>

Gwasanaethau Trais Rhywiol a Cham-drin Rhywiol New Pathways: 01685 379310

Darparu gwasanaethau cyngori pwrpasol a perthnasol, cymorth a chyngor i blant, pobl ifanc ac oedolion sydd wedi dioddef trais rhywiol, cam-drin rhywiol neu drawma. Mae'r gwasanaethau am ddim.

Gwefan: <http://www.newpathways.co.uk/>

Saheli: 029 2049 6920

Cynnig cymorth i deuluoedd Mwslimaidd ac Asiaidd.

Samariaid (Caerdydd): 029 2034 4022

Darparu cymorth cyfrinachol anfeirniadol, 24 awr y dydd i bobl sy'n gofidio neu'n anobeithio, yn cynnwys pobl fyddai'n gallu lladd eu hunain.

Gwefan: <http://www.samaritans.org/>

Tai Hafan: 01267 238041

Cymdeithas dai i fenywod agored i niwed.

Gwefan: www.tai-hafan.co.uk

Cymorth i Fenywod: 0808 8010 800

Asiantaeth arweiniol sy'n cynnig cymorth i holl fenywod a phlant Cymru sy'n dioddef cam-drin domestig.

Gwefan: www.welshwomensaid.org

Cymorth i Fenywod Caerdydd: 02920 460 566

Gwasanaethau cymorth arbenigol i fenywod a phlant sy'n dioddef cam-drin domestig.

Gwefan: <http://www.cardiffwomensaid.org.uk>

Uned Diogelwch Menywod Caerdydd: 029 2022 2022

Helpu pobl i gael amrywiaeth o wasanaethau cymorth effeithiol yn ddi-oed.

Cymorth i Ddioddefwyr: 0845 3030 900 (minicom: 020 7896 3776)

Cynnig cymorth a chyngor i ddioddefwyr a thystion.

Gwefan: www.victimsupport.org.uk